Y Disgyblion Cyntaf

Dewisodd yr Iesu ddeuddeg o ddisgyblion. Daeth o hyd i'r ddau gyntaf gydag Ioan Fedyddiwr. Fe wnaethon nhw adael Ioan a dilyn yr Iesu. Andreas oedd un ohonyn nhw, brawd Simon Pedr. Daeth Pedr yn un o ddisgyblion yr Iesu hefyd. Galwodd yr Iesu Philip o Fethsaida i'w ddilyn. Yna dywedodd Philip wrth Nathanael am yr Iesu, a dilynodd Nathanael yr Iesu hefyd. Galwodd yr Iesu Mathew y casglwr trethi, a dilynodd ef Iesu hefyd. Yn y diwedd dewisodd yr Iesu ddeuddeg o ddisgyblion. Fe wnaeth alw pob un ohonyn nhw mewn ffordd wahanol.

"Dyma Iesu'n galw arnyn nhw, 'Dewch, dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod.' Heb oedi, dyma'r ddau yn gollwng eu rhwydi a mynd ar ei ôl."
Mathew 4:19-20

Sut wnaeth y disgyblion cyntaf ateb galwad yr Iesu?

Dilynodd y disgyblion yr Iesu. Tynnwch linell a dangoswch pa ffordd yr aethon nhw.

Gwers 7
Y Disgyblion Cyntaf

Testun y Beibl: Marc 3:16-19; Luc 9:1-6.

Adnod allweddol: Mathew 4:19-20.

Pwrpas: Bydd y plant yn darganfod bod yn rhaid i ddisgyblion Iesu fod yn ufudd Iddo.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

I. Gwers

Cyn gweithio ar y dudalen liwio, dywedwch wrth y plant am y disgyblion cyntaf drwy ddefnyddio cwestiynau ac atebion.

C. Beth yw ystyr 'disgybl'?

A. Myfyriwr yw disgybl, rhywun sy'n dilyn rhywun arall.

C. Ble y daeth Iesu o hyd i'w ddisgyblion cyntaf a pham wnaethon nhw Ei ddilyn?

A. Mewn mannau gwahanol. Nid yw'r Arglwydd Iesu'n poeni am edrychiad pobl na beth yw safle cymdeithasol rhywun. Mae'n caru pawb ac mae eisiau iddyn nhw Ei ddilyn Ef. Mae disgyblion cyntaf yr Iesu'n enghreifftiau o hyn:

– Andreas, brawd Simon Pedr. Roedd ef gydag Ioan Fedyddiwr. (Ioan 1:35-51)

- Meibion Sebedeus, Iago ac Ioan. Daeth yr Iesu o hyd iddyn nhw wrth iddyn nhw eistedd mewn cwch gyda'u tad yn trwsio'u rhwydi. Fe wnaethon nhw ddilyn yr Iesu pan alwodd arnyn nhw. (Mathew 4:21-22)

– Y casglwr trethi, Mathew. Roedd ef wrthi'n casglu trethi pan ddywedodd Iesu wrtho: "Tyrd, dilyn fi!" Ar unwaith cododd a dilyn yr Iesu. (Marc 2:13-17)

C. Beth yw enwau'r deuddeg disgybl cyntaf?

A. Marc 3:16-19

C. Beth mae'r Arglwydd Iesu eisiau oddi wrth Ei ddisgyblion?

A. Mae eisiau iddyn nhw Ei ddilyn Ef a dweud wrth eraill amdano, fel y gwnaeth Andreas a'i frawd Simon Pedr, neu Philip a Nathanael. (Luc 9:1-6).

Awgrym: Eglurwch beth yw ystyr disgybl, sut mae'r Iesu'n ein galw heddiw i fod yn ddisgyblion iddo, a'r hyn y mae'r Iesu'n ei ddisgwyl oddi wrth Ei ddisgyblion.

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod o'r Beibl yn uchel.

"Dyma Iesu'n galw arnyn nhw, 'Dewch, dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod.' Heb oedi, dyma'r ddau yn gollwng eu rhwydi a mynd ar ei ôl." Mathew 4:19-20

b. Eglurwch y geiriau allweddol:

Dewch, dilynwch fi – mae'r Iesu eisiau i ni Ei ddilyn Ef. Mae'n esiampl i ni. Mae Ef eisiau i ni ufuddhau iddo a'i garu.

A gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl – bydd yr Iesu'n rhoi nerth a doethineb i ni ddweud wrth eraill amdano, er mwyn iddyn nhw hefyd ddod yn ddisgyblion iddo.

Heb oedi, dyma'r ddau yn gollwng eu rhwydi a mynd ar ei ôl – Fe wnaeth y rhai a alwyd gan yr Iesu adael popeth a'i ddilyn Ef. Mae disgybl yn dilyn Iesu ac yn gadael popeth er Ei fwyn.

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod o'r Beibl.

2. Adolygwch y cwestiynau ar gyfer y plant:

- Pwy oedd y deuddeg disgybl cyntaf?
- Pam fod ar Iesu eu hangen?
- Beth yw'r dasg ar gyfer disgyblion Iesu?
- Wyt ti eisiau bod yn un o ddisgyblion Iesu?
- Beth sydd angen ei wneud i fod yn ddisgybl da?

III. Diweddglo

Mae disgybl i'r Iesu'n ufudd Iddo ac yn Ei ddilyn. Mae'n caru eraill ac yn sôn wrthyn nhw am y Gwaredwr. Aeth disgyblion yr Iesu â'r Newyddion Da i'r byd i gyd. Er mai ychydig oedden nhw mewn nifer, aethant i bob man a dweud wrth bawb am y Gwaredwr. Dyma sut yr aeth Cristnogaeth ar draws y byd. Wyt ti eisiau bod yn un o ddisgyblion yr Iesu?